



Madrig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Anfonwn ein cyfarchion cynnes wrth i eglwysi ar hyd Cymru baratoi i lawenhau yng ngenedigaeth Crist. Mae'r wythnosau diwethaf wedi rhoi achos i ni yn Cytûn i gynnig diolch a moliant am nifer o bethau. Fodd bynnag, yn gyntaf, achos o bryder mawr

Cymuned Gristnogol Irac yng Nghymru



Yn dilyn cais am gymorth gan gymuned Gristnogol Irac yng Nghymru, bydd Cytûn yn cynnal Gwynos yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd rhwng 6.00 - 7.00 p.m. ar Ddydd Mercher, Rhagfyr 22. Byddai eich gweddiâu dros y gymuned Gristnogol sy'n cael ei herlid yn Irac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Ein bwriad ar gyfer y noson yw gweddio dros Gristnogion sydd yn dioddef erledigaeth yn Irac ac i ddwyn eu cyflwr i sylw'r wasg a'r cyfryngau Cymreig. Mae croeso i bawb i ddod i'r Wylnos. Rydym yn gweithio'n agos yn yr agwedd yma o'n gwaith, ac ar lefel Brydeinig, gyda chydweithwyr yng Nghynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr.

Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon



Mae Cytûn wedi buddsoddi llawer iawn o amser yn ddiweddar yn gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Bu staff Cytûn yn arwain yn enwedig wrth alluogi Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon i lunio ei ddogfen strategol newydd. Aeth Rhian Linecar i Grŵp Cyfeirio Ffydd a Threfn yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn Llundain a gofynnwyd iddi gydlynu ymateb Cymru i gwestiynau allweddol. Bydd yr atebion yn ffurfio sail ar gyfer gwaith a chyfeiriad y Grŵp yn y dyfodol. Hi hefyd gadeiriodd Grŵp Ysgrifenydd Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon a gyfarfu yn Llundain yn ddiweddar.

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru



Mater o lawenydd i Gyngor yr Eglwysi Rhyddion oedd apwyntio'r Parchedig Gareth Morgan Jones yn Llywydd newydd. Cofnododd cyfarfod mis Tachwedd ddiwedd gwasanaeth tair blynedd y Parchedig Martin Spain a mentro i bennod ym mywyd a gwaith y Cyngor.

Gwelodd y Cyngor yn dda i ganmol gwaith Martin Spain a weithiodd mor galed i godi proffil yr eglwysi rhyddion a rôl y Llywydd fel cynrychiolydd yn genedlaethol yn y cyswllt cyhoeddus a'r byd eglwysig. Fe wnaeth Martin, gan gomisiynu'r Llywydd newydd a'i gyflwyno â thlws y swydd, ddweud ei fod yn parhau i edrych ymlaen at gael cydweithio â'r Cyngor dan lywyddiaeth Gareth Morgan Jones. Diolchodd Gareth i'r Cyngor am fraint yr apwyntiad gan edrych ymlaen yn fawr at ei gyfnod o dair blynedd. Y mae pawb yn Cytûn yn dymuno'n dda i Gareth ac yn dymuno bendith ar y gwaith.

Tystiolaethu

Ar gyfer y Nadolig hwn, ceisiodd Cytûn wneud yr eglwysi sy'n aelodau ohono yn ymwybodol o broject Y Geni Caerdydd. Mae'n weithred o dystiolaethu Cristnogol nodedig i atgoffa pawb o hanes Efengyl y Nadolig.

Mae staff Cytûn hefyd wedi parhau i gefnogi gwaith yr eglwysi sy'n aelodau ohono drwy fynychu cymanfaoedd, cynullïadau cyffredinol a chyrrff llywodraethol gan ganolbwyntio'n arbennig ar faterion eciwmenaidd. Rydym hefyd wedi cefnogi eglwysi lleol drwy Gymru gyfan a thu hwnt: Caerdydd, Trefforest, Pontypridd, Penrhawceibr, Wrecsam a Llundain

Mae gwaith tystiolaethu Cytûn yn parhau ar lefel genedlaethol. Cynhaliwyd cyfarfod cynhyrchiol yn Llanfair ym Muallt er mwyn helpu i ail-



ddylunio presenoldeb yr eglwysi yn y Sioe Frenhinol. Dysgwyd cryn dipyn o'n profiad yn Sioe 2010 gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymdeimlad o weddi, addoli a gofal bugeiliol. Dathlwyd gwaith y caplaniaid bywyd gwledig. Trafodwyd dyheadau hefyd mewn perthynas â darparu mwy o le ar gyfer addoli. Byddem unwaith eto yn gofyn am eich gweddïau dros y gwaith hwn.

Cafodd cwrs "Croeso i Gymru" Cytûn ei gynnal rhwng Hydref 6 ac 8, 2010 yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf gan Swyddog Polisi Cytûn, Geraint Hopkins. Ei nod oedd cyflwyno elfennau o ddiwylliant Cymreig, treftadaeth Gristnogol, iaith a hanes wleidyddol-gymdeithasol i weinidogion Cristnogol oedd yn dechrau eu gweinidogaeth yng Nghymru am y tro cyntaf wedi iddyn nhw symud yma o rannau eraill o'r byd. Mynychwyd y cwrs gan 16 gweinidog o bedwar gwahanol enwad. Dangosodd y broses werthuso fod croeso eang i'r cwrs a'i fod wedi ei fwynhau, ac fe argymhellir i'r eglwysi ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae Cytûn yn parhau i geisio tystiolaethu i'r ffydd Gristnogol yng nghyd-destun Rhyng-ffydd Cymru. Gwnaed cynnydd yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Rhyng-ffydd Cymru tuag at drefnu digwyddiadau ar gyfer Wythnos Rhyng-ffydd mis Tachwedd. Aeth rhai digwyddiadau'n dda - yn enwedig yn Wrecsam - ond roedd yn rhaid gohirio rhai trefniadau o ganlyniad i'r tywydd gwael.

Materion Ffydd a Threfn

Mae Rhian Linecar wedi parhau i arwain tîm y staff wrth ddatblygu gwaith ffydd a threfn Cytûn gan wneud cynnydd sylweddol gyda Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Mae hi: wedi cefnogi gwaith cyfarfod Cyngor Cenhadaeth Dwyrain Caerdydd, wedi dechrau gwaith ar grŵp y Comisiwn ar adolygu *Episcope*, wedi adrodd yn ôl ar ei hymweliad i'r *Kirchentag* yn yr Almaen, wedi dechrau gwaith ar gynhyrchu llyfryn newydd gan y Comisiwn, wedi cymryd camau i sefydlu Panel Litwrgaidd ailgyfodol a threfnu cyfarfod er mwyn hyrwyddo gwaith Hyrwyddwyr y Comisiwn. Y gobaith yw bydd yr Hyrwyddwyr yn hwyluso datblygiadau eciwmenaid lleol diriaethol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Cwblhawyd gwaith hefyd yng ngwasanaeth Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Daeth Rhian i gyswllt gyda phob un o'r 22 CYSAG i gadw golwg ar swyddi gweigion cyfredol ar gyfer aelodau o'r Eglwys Ryddion a hi wnaeth gylchredeg yr wybodaeth.

Materion Eglwys a Chymdeithas

Roedd yn bleser gan Fforwm Rhyngwladol Cytûn i groesawu cynrychiolydd y Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru, Mr Andy Klom, i'w gyfarfod diwethaf. Amlinellodd Mr Klom ddatblygiadau diweddar yn yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y newidiadau gwleidyddol a achoswyd gan Gytundeb Lisbon, ehangiad, materion sydd yn wynebu arian yr Ewro a chynrychiolaeth yr Undeb Ewropeaidd ym maes materion rhyngwladol, cymorth a datblygiad. Atebodd Mr Klom gwestiynau ac ymglymodd â

thrafodaeth gyda chynrychiolwyr yr eglwysi ar y Fforwm. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar am ei drafodaeth addysgiadol a'n hysgogodd i feddwl.

Rhoddodd Swyddog Polisi Cytûn, Geraint Hopkins, adroddiad i Bwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol. Soniodd yn ei adroddiad am gyflwr presennol eciwmeniaeth yng Nghymru, yr angen cynyddol i eglwysi siarad yn berthnasol ar faterion o bwys cyhoeddus yng Nghymru ac ymglymu â'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill, a phwysigrwydd cadw pwysau ar gyllid cymorth rhyngwladol yn yr hinsawdd economaidd anodd sy'n wynebu'r byd. Cafwyd cynrychiolaeth hefyd gan Cytûn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cymorth Cristnogol yn Llundain.



Gwnaed cynnydd sylweddol mewn amser byr wrth hybu uchelgais Cytûn i wneud Cymru yn genedl gyntaf y DU i fod yn "Genedl Lloches". Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dwyn y mater i ystyriaeth yn dilyn cyfarfod mis Hydref o'r Fforwm Cymunedau Ffydd a chafwyd ymateb cadarnhaol o gyfarfod mis Rhagfyr o Bartneriaeth Mudo Strategol Cymru sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol.

Mae Cytûn yn parhau i wasanaethu cymunedau ffydd Cymru ar Fforwm Cymru Gydnerth cynllunio brys Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gwaith wedi cael ei ddechrau gyda golwg ar sicrhau bod gan awdurdodau lleol gysylltiadau da sy'n seiliedig yn yr eglwys rhag ofn argyfwng cenedlaethol.

Nodiadau ar gyfer eich Dyddiaduron

Byddwch cystal â nodi yn eich dyddiaduron caiff cyfarfod nesaf Grŵp Galluogi Cytûn i gynnal ar Fai 18, 2011 yng Nghaerfyrddin. Gwahoddir mudiadau eciwmenaidd lleol a rhanbarthol i ddanfôn cynrychiolydd.

Pob Peth yn Gyffredin: Gair olaf i gloi. Mae'r deunydd ar gyfer yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol ar gael o hyd ar-lein o Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.

Pob Bendith,



Y Parchedig Aled Edwards OBE
Prif Weithredwr Cytûn

Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046
4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 |
Enw Cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae
Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071